Anna Brychan
Y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg
Cabinet Minister for Education and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Owain Gethin Davies
Cadeirydd
Adnodd

Gethin.Davies@adnodd.llyw.cymru

6 Hydref 2026

Annwyl Gethin

Llythyr Cylch Gwaith Adnodd 2026-30

Rwy'n ysgrifennu atoch i nodi'r cylch gwaith ar gyfer Adnodd. Mae'r llythyr hwn yn disodli eich cylch gwaith blaenorol. Bwriedir iddo aros yn ei le am dymor cyfan y Llywodraeth, hyd nes y bydd y Llywodraeth yn gosod ei hagenda strategol yn dilyn etholiad cyffredinol cyffredin y Senedd yn 2030.

Wrth gyhoeddi'r llythyr hwn, rwy'n ymwybodol bod Adnodd yn gweithredu yng nghyd-destun yr un blaenoriaethau cenedlaethol ag Dysgu, ac y bydd angen i'r is-gwmnïau hyn, sy'n llwyr atebol i Weinidogion Cymru ac o dan eu perchnogaeth lwyr, gydweithio i gynllunio'r cymorth sydd ei angen ar ein system addysg.

Y cyd-destun strategol

Mae'r Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd ar 22 Medi 2026, yn nodi agenda strategol y Llywodraeth hon. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyhoeddi a gweithredu Cynllun Llythrennedd a Rhifedd, a chodi safonau drwy sefydlu targedau cenedlaethol, gan gynnwys asesiad sylfaenol ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau yn yr ysgol, a chefnogi ein gweithlu i ddatblygu targedau unigol ar gyfer pob dysgwr.
- Adolygu trefniadau cwricwlwm ac asesu i symleiddio ac egluro disgwyliadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau.
- Datblygu fframwaith cydlynol sy'n dwyn ysgolion, iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau ieuenctid ynghyd i fynd i'r afael ag ymddygiad, presenoldeb, llesiant ac anghydraddoldeb addysgol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Anna.Brychan@llyw.cymru
Correspondence.Anna.Brychan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Cryfhau cynaliadwyedd hirdymor y system Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys gyda phartneriaid iechyd, i gryfhau eglurder y system, capasiti a hyder y gweithlu i ddarparu addysg gynhwysol yn y Gymraeg neu'r Saesneg, fel bod plant a phobl ifanc yn derbyn y gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn i ddiwallu eu hanghenion.
- Cynyddu cyfran y plant a'r bobl ifanc sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogi cynnydd yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gweithio gyda'n gweithlu addysg a'n partneriaid cymdeithasol i wneud addysgu yn yrfa ddeniadol, uchel ei pharch sy'n dod â boddhad; a gwella recriwtio a chadw trwy leihau llwyth gwaith, darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu a chefnogi datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel i bob athro, arweinydd a chynorthwyydd addysgu.
- Cryfhau arweinyddiaeth a llywodraethiant diogelu ar draws y sector addysg drwy sicrhau bod dysgwyr ac addysgwyr yn gallu adnabod ac adrodd am achosion o grŵmio, darparu addysg gynhwysfawr ar ddiogelwch digidol a llythrennedd yn y cyfryngau, a sicrhau bod safonau diogelu ac addysgol yn cael eu cynnal yn gyson ac yn destun craffu annibynnol.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau gwelliant parhaus mewn llythrennedd a rhifedd i'n dysgwyr dros dymor y Senedd hon. Mae'r sgiliau sylfaenol hyn yn hanfodol ar gyfer dysgu, ar gyfer gwaith ac ar gyfer bywyd ac maent yn ganolog i'n pwrpas fel Llywodraeth. Mae ein Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yn nodi meysydd allweddol o gymorth ar draws y system i Adnodd, Dysgu a phartneriaid cenedlaethol eraill eu datblygu ar y cyd â'm swyddogion. Rwy'n awyddus i Adnodd ddatblygu a thargedu ei adnoddau a gomisiynir mewn ffordd sy'n cefnogi'r nod hwn o sicrhau gwelliant parhaus mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae gan Adnodd a Dysgu rolau allweddol a chyflenwol wrth gefnogi ein gwaith ar y blaenoriaethau hyn:

- Mae Adnodd yn arwain ac yn cydlynu'r ddarpariaeth o adnoddau addysgu, dysgu ac asesu dwyieithog o ansawdd uchel, gan gynnwys i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY ac ar gyfer datblygiad yn y blynyddoedd cynnar. Mae gwaith Adnodd yn hanfodol i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, ac ar gyfer cynnydd dysgwyr a chyflawni cymwysterau cymeradwy ar draws y continwwm 3-19.
- Gall Dysgu, trwy ddarparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel mewn llwybrau gyrfa cydlynol a darparu cymorth i gryfhau arweinyddiaeth, sicrhau bod ein hymarferwyr yn fyfyriol, yn chwilfrydig ac yn gydweithredol.

Dylai darpariaeth Adnodd, ochr yn ochr â darpariaeth Dysgu, anelu at wella safonau mewn addysgu, dysgu ac asesu, a hyrwyddo tegwch a chynhwysiant trwy gael gwared ar rwystrau i ymgysylltu â dysgu a gwneud cynnydd. Dylai Adnodd gefnogi ymarferwyr i gynllunio a darparu profiadau dysgu diddorol sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr ac yn gwireddu uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd y cynnig cenedlaethol cydlynol hwn o adnoddau hygyrch a pherthnasol yn helpu i reoli llwyth gwaith ymarferwyr, yn cefnogi eu llesiant ac yn ysbrydoli eu harferion.

Mae Adnodd hefyd yn allweddol i weithredu ein gweledigaeth ar gyfer system gwella ysgolion gydweithredol. Dylai adnoddau addysg cenedlaethol cyson o ansawdd uchel, ochr yn ochr â dysgu proffesiynol gan Dysgu a chefnogaeth gan awdurdodau lleol a

phartneriaid eraill, arfogi ysgolion – fel sefydliadau sy'n dysgu – i weithio ar y cyd i godi safonau a gwella deilliannau i bob dysgwr ledled Cymru.

Dylai gwaith Adnodd hefyd ystyried Deddf Cydraddoldeb 2010 a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a Strategaeth Cymraeg 2050, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) 2026.

Amcanion

Bydd angen i waith Adnodd gyflawni'r amcanion a bennir yn ei Erthyglau Cymdeithasu, a gyhoeddwyd ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.

Mae'r rhain yn ymwneud â chomisiynu, cynhyrchu a hyrwyddo adnoddau addysg dwyieithog a deunyddiau ategol. Mae'r Erthyglau Cymdeithasu hefyd yn nodi y gall Adnodd ymgymryd ag unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol neu'n ddymunol i hyrwyddo eu hamcanion.

Blaenoriaethau Strategol

Mae'r Atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'r blaenoriaethau strategol a ddylai lywio gwaith Adnodd ar gyfer 2026-30. Mae'r gofynion a nodwyd yn Llythyr Cyllido Adnodd 2026-27 yn parhau yn eu lle.

Cwmpas y ddarpariaeth

Dylai adnoddau a deunyddiau ategol Adnodd gefnogi addysgu, dysgu, cynnydd dysgwyr ac asesu ar draws holl leoliadau addysg y Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys yr holl ysgolion a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion, darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY), a lleoliadau meithrin nas cynhelir o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. Yn ôl yr angen, gall Adnodd hefyd gefnogi datblygu adnoddau addysg ar gyfer plant 0–3 oed, hunan-astudio dysgwyr, a pharatoi ar gyfer cymwysterau cymeradwy.

Dylai Adnodd sicrhau'r mynediad gorau posibl i'w ddarpariaeth, gan sicrhau cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ar draws y gweithlu addysg a'r gymuned ehangach o ddefnyddwyr adnoddau. Dylai'r cymorth fod ar gael ac yn hygyrch yn Gymraeg a Saesneg mewn modd teg. Dylai'r ddarpariaeth Gymraeg fod yn ymatebol i ofynion Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, a dylai Adnodd weithio mewn partneriaeth agos â'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol (yr Athrofa) ar ôl iddi gael ei sefydlu ar 1 Awst 2027 i gefnogi gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol.

Nid yw'n ofynnol i Adnodd ddatblygu adnoddau pwrpasol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid ond dylai anelu at hybu mynediad at adnoddau presennol ymhlith gweithwyr ac arweinwyr ieuenctid fel y bo'n briodol.

Fel rhan o raglenni penodol, gellir nodi darpariaeth bwrpasol ar gyfer grwpiau eraill yn Llythyrau Cyllido blynyddol Adnodd.

Rolau partneriaid

Mae Adnodd a Dysgu yn sefydliadau allweddol yn ein system addysg yng Nghymru ochr yn ochr â phartneriaid eraill, gan gynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, Estyn a Llywodraeth Cymru. Bydd cyflawni'r Cylch Gwaith hwn yn gofyn am gydweithredu effeithiol rhwng Adnodd, Dysgu a'r holl bartneriaid. Mae eu rolau priodol wedi'u hamlinellu yn y Canllawiau Gwella Ysgolion.

Mae Dysgu ac Adnodd yn gyfrifol am arwain a chydgysylltu'r gwaith o ddatblygu a darparu cymorth o ansawdd uchel sy'n gyson yn genedlaethol ar gyfer addysgu a dysgu. Rwy'n disgwyl i'r ddau sefydliad weithio gyda'i gilydd i sicrhau darpariaeth gydategol sy'n cael yr effaith fwyaf bosibl. Mae hyn yn cynnwys creu, datblygu a rhannu adnoddau addysgu, dysgu ac asesu priodol i gefnogi cynnig dysgu proffesiynol Dysgu mewn ffordd gydlynol ac amserol.

Rwy'n disgwyl i Adnodd a Dysgu gydweithio â'n Tîm Gwella Addysg a sefydliadau eraill, yn enwedig awdurdodau lleol ac Estyn, i nodi anghenion y system ac i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth i ddiwallu anghenion ymarferwyr. Rwy'n disgwyl i sefydliadau partner ategu a chyd-fynd â'r ddarpariaeth genedlaethol, a pheidio â dyblygu neu wyro oddi wrthi.

Trwy'r rolau cydategol hyn, dylai Adnodd, Dysgu a'u partneriaid weithio gyda'i gilydd i sicrhau system gymorth genedlaethol gydlynol o ansawdd uchel sy'n gwella arferion a deilliannau i bob dysgwr.

Cynlluniau sefydliadol

Yn unol â'r Ddogfen Fframwaith sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru ac Adnodd, mae'n ofynnol i chi gyflwyno cynlluniau wedi'u diweddaru o fewn tri mis ar ôl derbyn y Llythyr Cylch Gwaith hwn sy'n nodi sut y byddwch yn cyflawni eich amcanion strategol.

Mae'n ofynnol i Adnodd ddatblygu cynllun corfforaethol o fewn y fframwaith polisi a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, a hynny yng nghyd-destun y nodau Llesiant, i gwmpasu'r cyfnod 2026-30 a darparu dull cyflawni hirdymor clir. Dylid cyflwyno'r cynllun ochr yn ochr â'r cynllun busnes.

Efallai y bydd Adnodd hefyd yn dymuno ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i gynlluniau gweithredol yn dilyn y llythyr hwn. Mae cynlluniau gweithredol fel arfer yn cael eu llunio bob blwyddyn mewn ymateb i Lythyrau Cyllido blynyddol ac yn cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Cyllid

Mae Llythyr Cyllido Adnodd ar gyfer 2026-27 yn darparu cyllideb adnoddau o £4,974,194. Gall Llythyrau Cyllido gael eu diweddaru yn ystod y flwyddyn, er enghraifft i ddarparu cyllid ar gyfer gofynion ychwanegol.

Bydd cyllid ar gyfer 2027-28, 2028-29, a 2029-30 yn ddibynnol ar brosesau cyllideb Llywodraeth Cymru a phenderfyniadau gan Senedd Cymru. Mae hyn yn golygu:

- Efallai y darperir cyllid ychwanegol ar gyfer gofynion ychwanegol, i'w nodi mewn Llythyrau Cyllido i ddod

- Efallai y bydd cyllid yn lleihau os nad oes angen gweithgareddau mwyach, ac efallai y bydd angen lleihau gweithgareddau o ran eu cwmpas neu eu cyrhaeddiad; efallai y bydd angen oedi gweithgareddau neu eu cyflwyno fesul cam
- Efallai na ddarperir cyllid ar gyfer yr holl weithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr Atodiad
- Efallai y gofynnir i Adnodd adnabod arbedion effeithlonrwydd yn ei weithrediadau ac wrth gyflawni gweithgareddau.

Bydd unrhyw newidiadau i'r cyllid yn cael eu trafod rhwng Adnodd a'm swyddogion yn y lle cyntaf ac mewn da bryd cyn y blynyddoedd ariannol perthnasol.

Yn gywir



Anna Brychan AS/MS
Y Gweinidog Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg
Cabinet Minister for Education and the Welsh Language

ATODIAD

Adnodd: Blaenoriaethau strategol ar gyfer 2026-30

1. **Sicrhau bod adnoddau addysgu a dysgu perthnasol o ansawdd uchel ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd, i gefnogi llythrennedd a rhifedd yn y blynyddoedd cynnar, y Cwricwlwm i Gymru a chymwysterau cymeradwy**

    - Blynyddoedd cynnar – cefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a dysgu sylfaen trwy sicrhau mynediad at adnoddau o ansawdd uchel, sy'n briodol yn ddatblygiadol.
    - Cynllunio cwricwlwm – sicrhau mynediad at adnoddau hyblyg, ymarferol y gellir eu defnyddio'n uniongyrchol ar gyfer cynllunio cwricwlwm ysgol a chynllunio yn yr ystafell ddosbarth, gyda'r gwaith comisiynu yn cefnogi cynnydd dysgwyr ac asesu.
    - Llythrennedd a rhifedd – datblygu adnoddau dysgu, addysgu ac asesu (ochr yn ochr â dysgu proffesiynol) fel elfen allweddol o weithredu'r Cynllun Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yn llwyddiannus, gan gynnwys deunyddiau sy'n cefnogi ymarferwyr i ymgorffori llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a chefnogi cynnydd mewn dysgu.
    - Y Gymraeg – gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Dysgu a'r Athrofa, ar adnoddau a deunyddiau i gefnogi datblygu sgiliau Cymraeg - yn unol â'r Cod sy'n disgrifio gallu yn y Gymraeg.
    - Anghenion dysgu ychwanegol – cadw ffocws strategol ar gydlynu, datblygu a gwella adnoddau sy'n cefnogi dysgwyr gydag ADY, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu'r anghenion amrywiol ar draws lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
    - Tegwch a llesiant – cadw ffocws parhaus ar ddarparu deunyddiau addysgu a dysgu sy'n diwallu anghenion ymarferwyr a dysgwyr, gan gynnwys ar amrywiaeth, rhywedd, iechyd a llesiant (gan gynnwys iechyd meddwl), hawliau, anableddau, gwrth-hiliaeth ac ethnigrwydd.
    - Dyniaethau – adeiladu adnoddau pellach i gefnogi addysgu a dysgu hanes Cymru, ochr yn ochr â materion cymdeithasol ehangach.
    - Gwyddoniaeth a thechnoleg – gweithio gyda phartneriaid i wella mynediad at adnoddau cynradd ac uwchradd ar gyfer gwyddoniaeth, cyfrifiadura a chymhwysedd digidol.
    - Celfyddydau mynegiannol – ymateb i gyfleoedd i wella adnoddau addysgu a dysgu sy'n cefnogi datblygiad y celfyddydau mynegiannol.
    - Gwybodaeth a sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben – cefnogi dysgwyr i ddatblygu creadigrwydd ac arloesedd, meddwl beirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, a chynllunio a threfnu.

2. **Cynnal fframwaith sicrhau ansawdd, gan sicrhau bod adnoddau yn unol ag ethos ac egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru**

- Anghenion y system – ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Dysgu, awdurdodau lleol, Estyn, Cymwysterau Cymru, yr Athrofa, partneriaid Cwlwm a dysgwyr, er mwyn cynnal dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr ar gyfer comisiynu a darparu adnoddau.
- Cynnal a gwella'n barhaus fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer adolygu, creu a diweddaru adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog o ansawdd uchel, wedi'u llywio gan eich ymgysylltiad â rhanddeiliaid.
- Arwain ar gyd-lunio a chyfathrebu canllawiau ar safonau a disgwyliadau ar gyfer datblygu adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog.
- Ymgysylltu â sefydliadau sy'n cael eu hariannu drwy raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru i sicrhau bod yr adnoddau a ddatblygir fel rhan o'r cymorth hwnnw yn ateb y galw.
- Sicrhau eu bod yn ofynnol i grewyr adnoddau ymgysylltu ag ethos ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a'u cymhwyso, a'u cefnogi i wneud hynny.

3. **Hybu'r gwaith o hyrwyddo adnoddau, codi ymwybyddiaeth ohonynt a'u defnyddio'n effeithiol**

- Ymgysylltu â thimau cyfathrebu a pholisi Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill i gefnogi cyfathrebu effeithiol ynghylch yr adnoddau a ddarperir i'r sector, ac i'w hyrwyddo.
- Gweithio gyda swyddogion dysgu digidol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o barhau i ddatblygu platfform Hwb fel y gwasanaeth naturiol i droi ato i ymarferwyr sy'n chwilio am gefnogaeth, adnoddau ac ysbrydoliaeth.
- Datblygu a gweithredu eich cynllun ymgysylltu a chyfathrebu strategol fel rhan o'ch gweithgarwch busnes.
- Cynnal model comisiynu priodol, ar sail cydadeiladu, sy'n:
    - adlewyrchu ac yn diwallu anghenion y sector addysg a rhanddeiliaid allweddol
    - sicrhau gwerth am arian
    - gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd ar gael yng Nghymru
    - mabwysiadu dull arloesol o ran y math o adnoddau, eu fformat a'u dyluniad, gan wneud y defnydd gorau o dechnolegau, tystiolaeth ac offer newydd
    - cyd-fynd â chydberthnasau a dulliau gweithredu sydd eisoes yn bodoli ar draws y sector addysg, ac yn manteisio arnynt.

4. **Datblygu a buddsoddi mewn sgiliau a'r gallu i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru**

- Gan adeiladu ar lwyddiant eich cronfa Cydweithredu ac Arloesi yn 2025-26, parhau i gefnogi, annog ac ariannu dulliau a syniadau arloesol a fydd yn datblygu ystod y crewyr cynnwys yng Nghymru.
- Drwy eich dull comisiynu a'ch gwaith gyda sefydliadau partner, parhau i ddatblygu eich perthynas â chyhoeddwyr, datblygwyr a chrewyr cynnwys i helpu i gefnogi cynllunio cynaliadwy a buddsoddi mewn sgiliau a chapasiti yng Nghymru.
- Parhau i weithredu fel galluogwr strategol trwy feithrin partneriaethau a harneisio arbenigedd, arloesedd a syniadau o'r tu hwnt i'r sector addysg er budd a mwynhad dysgwyr ac ymarferwyr.

5. **Cynnal a pharhau i ddatblygu gallu corfforaethol a systemau sefydliadol Adnodd**

- Gweithredu trefniadau llywodraethu cadarn, gan gynnwys Bwrdd sy'n perfformio ar lefel uchel a swyddogaeth weithredol sydd ag adnoddau a sgiliau digonol.
- Bodloni'r holl rwymedigaethau cyfreithiol, ariannol a rheoleiddiol, gan gynnal cyfres gynhwysfawr o bolisïau sefydliadol, rheolaethau a fframweithiau sicrwydd.
- Datblygu a chynnal sefydliad sy'n perfformio ar lefel uchel trwy ddysgu a datblygiad proffesiynol, llesiant staff ac arferion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan ymgorffori diwylliant o welliant parhaus.
- Bodloni'r gofynion a nodir yng Nghytundeb Fframwaith Llywodraeth Cymru a gweithio'n adeiladol ac yn dryloyw gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill.